GWYBODAETH I RIENI

YSGOL GYNRADD NEFYN

CYFEIRIAD: **Ysgol Gynradd Nefyn**
Ffordd Dewi Sant
Nefyn
Pwllheli
Gwynedd
LL53 6EA

FFÔN: **01758 720765**
E-BOST: **pennaeth@nefyn.gwynedd.sch.uk**

PENNAETH: Mrs Glenys Williams

CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR: Mr Gruffydd Wyn Morris

DISGRIFIAD O'R YSGOL

Ysgol Gynradd Sirol (Babanod a Iau) yw'r ysgol hon.
Mae'n ysgol ddyddiol, Gymraeg, gyd-addysgol.

ORIAU DYSGU

Babanod	21.5	yr wythnos
Iau	24	yr wythnos

Sesiwn y bore	**Sesiwn y prynhawn**
9.00 – 11.45	1.00 – 3.15 (Babanod efo toriad)
9.00 – 12.15	1.00 – 3.15 (Iau efo toriad)

Cynhelir sesiwn Blwyddyn Meithrin am ddwy awr yn ddyddiol
- un grwp yn y bore (9:00 – 11:00)

POLISI DERBYN YR YSGOL

Yn llawn amser ym mis Medi yn dilyn eu pen blwydd yn 4 oed.

Yn rhan amser ym Medi yn dilyn eu pen blwydd yn 3 oed.

STAFF YR YSGOL:

PENNAETH:	Mrs Glenys Williams
DIRPRWY BENNAETH:	Mrs Judith Owen
ATHRAWON:	Mrs. Judith Owen (Meithrin/Derbyn 1) Mrs Gwawr Howel (2/3) Miss.Alison Thompson (4) Mrs. Sian Llewelyn Evans (5) Mrs. Meirwen Williams (6) Miss Gwyneth Evans (Uwch Gymhorthydd) Miss Bethan Roberts Jones (Cymhorthydd Dosbarth) Karen Pritchard (Cymhorthydd Dosbarth)
STAFF ATEGOL:	Mrs. Wilma Jones (Gofalwraig/Glanhawraig) Mr Hefin Jones (Glanhawr) Mrs. Eirian Davies (Cogyddes) Mrs. Hannah Jones (Cymhorthwraig cegin) Mrs Haf Thomas (Gor. Cinio) Cheryl Dobson (Gor. Cinio) Gwyneth Evans (Clerc Cinio) Iorwen Adams (Dynes Lolipop)
CYMORTHYDDION A.A.A :	Carys Williams Ann Jones Lowri Roberts Wilma Jones

Y CORFF LLYWODRAETHOL

Aelodau

Mr Gruffydd Wyn Morris, Garn Elidir, Nefyn (A.A.Ll)
Cyng Llinos Mêrks (A.A.Ll)
Mrs Ulla Weber Jones, Fron, Llithfaen (A.A.Ll)
Cyng Dafydd Hughes (Cyngor Tref)
Mr Elfed Roberts (Cyfetholedig)
Mr Iwan ap Llyfnwy, Foel Gwynus, Llithfaen (Cyfetholedig)
Mr Medwyn Williams, Clwyd, Morfa Nefyn (Cyfetholedig)
Mr Stephen Williams, Llys Heli, Morfa Nefyn (Rhieni)
Mrs Ffion Hughes,Min-Y-Don, Nefyn (Rhieni)
Miss Karen Roberts-Jones, 1 Craig y Nos, Nefyn (Rhieni)
Mrs Carys Parry Jones, Penbryn Holborn, Nefyn (Rhieni)
Mrs Wilma Jones, Ty'r Ysgol, Nefyn (Staff Ategol)
Mrs Glenys Williams (Pennaeth)

Mrs Judith Owen (Athrawon)
Miss Gwyneth Evans 12 Ffordd Caernarfon, Pwllheli (Clerc)

Swyddogion
Cadeirydd – Mr Gruff Morris
Is-Gadeirydd – Mrs Ffion Hughes
Clerc – Miss Gwyneth Evans

Cymdeithas Rhieni/Athrawon

Swyddogion

Cadeiryddion – Mrs Rhian Roberts
Ysgrifenyddes – Miss Karen Roberts-Jones
Trysoryddes – Mrs Gwenda Williams

Mae yma Gymdeithas Rhieni/Athrawon gweithgar. Yn ogystal â threfnu nosweithiau cymdeithasol, bydd y Gymdeithas yn trefnu gweithgareddau i godi arian i Gronfa`r Ysgol, e.e. taith gerdded, ocsiwn addewidion.
Cofiwch, rydym yn dibynnu ar eich cefnogaeth chi fel rhieni.
Bydd yr ysgol yn gwerthfawrogi eich cymorth parod.
Sut i gael rhagor o wybodaeth
Mae gwybodaeth bellach sydd ei angen arnoch ar gael yn yr ysgol.
Gellwch gysylltu â`r ysgol i wneud trefniadau i ymweld unrhyw amser neu beth am fynd ar wefan yr ysgol yn aml?

GWERTHOEDD, AMCANION AC ETHOS YR YSGOL

Rhagair
Pwrpas cyfundrefn addysg yw creu sefyllfaoedd a chyflenwi adnoddau a fydd yn galluogi pob plentyn i gyrraedd ei lawn botensial ac i dyfu yn bersonoliaeth lawn. Cyn y gall plentyn fanteisio'n llwyr ar y sefyllfaoedd a grëir mae'n holl bwysig ei fod yn hapus yn yr ysgol. Er mwyn cyrraedd y nod hwnnw rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau fod yr ysgol hon yn gymuned ofalgar a chroesawus sy'n pwysleisio parch at bobl ac at eiddo. Hyrwyddir gwerthoedd ac agweddau moesol y disgyblion trwy eu dysgu am anghenion pobl eraill a thrwy eu hannog i ymateb mewn dull cadarnhaol i ddiwallu'r anghenion hynny. Rydym hefyd yn ymdrechu i greu naws gwarchodol, di-ormes, caredig a disgybledig.

Amcanion Cyffredinol
Sicrhau yr addysg orau bosibl trwy :

a) gyflwyno corff o wybodaeth bywiog a dynamig i'r plentyn tra'n meithrin y sgiliau sylfaenol law yn llaw;
b) feithrin agweddau iach a meddwl ymholgar yn y plentyn;
c) gyflwyno syniadau a chysyniadau (arsylwi, cymharu ac yn y blaen);
ch) feithrin agwedd gadarnhaol at y ddwy iaith;
d) greu diddordeb mewn ffurfiau amrywiol o lenyddiaeth;
dd) greu ymwybyddiaeth o gefndir diwylliannol y fro a cheisio meithrin cariad y plentyn tuag at yr etifeddiaeth honno;
e) geisio meithrin gwerthoedd moesol a hunan-ddisgyblaeth gymdeithasol yn y plentyn, ynghyd â sensitifrwydd tuag at eraill.

Cyswllt â Rhieni

Anelir i:

1. greu awyrgylch hapus a chartrefol a deniadol i'r plant weithio a chwarae ynddo- un y bydd rhieni yn falch ohono.
2. trefnu gweithgaredd i ddod â'r rhieni a'r ardalwyr a'r plant at ei gilydd yn enw'r ysgol.
3. meithrin perthynas glos rhwng yr ysgol â'r fro.

RHEOLAU CYFFREDINOL YSGOL GYNRADD NEFYN

- Dechreuir yr ysgol am 8.50 o'r gloch. Disgwylir i'r plant fod yn brydlon.
- Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw blentyn sy'n cyrraedd yr ysgol cyn 8.40 – os nad oes trefniant blaenorol am reswm arbennig e.e. bws ysgol yn cyrraedd yn gynnar, onibai fod y plant wedi dymuno mynychu'r Clwb Brecwast (rhwng 8.00 + 8.40 y bore)
- Bydd unrhyw blentyn sy'n cyrraedd yn hwyr heb reswm digonol yn cael ei farcio'n 'hwyr' ar y gofrestr.
- Bydd yr ysgol yn gorffen am 3.15 o'r gloch.
- Rhaid anfon neges neu nodyn o eglurhad am unrhyw absenoldeb. Os na dderbynir eglurhad bydd yn cael ei nodi fel 'absenoldeb heb ganiatâd'.
- Mae'r awr ginio o 11.45 tan 1.00 Adran y Babanod ac o 12:15 – 1.00 i'r Adran Iau. Ni chaniateir i'r plant adael tir yr ysgol heb ganiatâd, ar wahân i ddisgyblion fydd yn mynd adref am ginio.
- Disgwylir i'r arian cinio gael ei dalu ar ddydd Llun. Gwerthfawrogir arian gwastad i hwyluso'r gwaith o gasglu'r arian. Y pris ar hyn o bryd yw £1.80 y dydd - £9.00 yr wythnos. Mae gan eich plentyn yr hawl i gael cinio am ddim os derbyniwch gymorth incwm. Mae ffurflenni perthnasol i'w cael gan y Pennaeth. Paratoir cinio ysgol bob dydd a gwneir trefniadau i'r plant sy'n dod â phecyn bwyd eu hunain ei fwyta ymysg y plant eraill.
- Bydd plant dan saith oed sy'n dymuno cael llefrith yn ei gael am ddim o dan gynllun y Swyddfa Gymreig. Mae'r ysgol yn gweithredu cynllun lle mae'r plant yn derbyn carton traean o beint llefrith yn ystod egwyl y bore.
- Ni chaniateir dod â melysion na diodydd melys i'r ysgol. Caniateir poteli dwr plastig heb fod yn suol (*fizzy*) neu boteli dŵr yr ysgol. Gan ein bod yn ysgol sy`n hybu iechyd cynigir ffrwyth i bob plentyn yn ddyddiol (telir £1 yn wythnosol).
- Cymerir pob cam rhesymol i sicrhau diogelwch y plant tra ar dir yr ysgol neu dan ofal athro/athrawes oddi allan i'r ysgol. Cyfrifoldeb y rhieni neu warchodwyr ydynt unwaith maent tu allan i giatiau'r ysgol ar ddechrau neu derfyn y diwrnod ysgol.
- Mewn achos o ddamwain neu salwch yn ystod oriau ysgol gwneir pob ymdrech i gysylltu â'r rhieni neu warchodwyr os bydd angen. Mewn achosion brys lle methir â dod i gysylltiad bydd y Pennaeth yn gweithredu yn ôl y galw.
- Nid yw'r ysgol yn cymeradwyo rhoi moddion i ddisgyblion yn yr ysgol oni bai fod amgylchiadau arbennig dan gyfarwyddyd meddyg. Mewn amgylchiadau eithriadol bydd y Pennaeth yn darparu copi o ffurflen AM2 i'r rhieni a'u cyfrifoldeb hwy fydd sicrhau llofnod eu meddyg teulu'n cymeradwyo rhoi'r moddion. Byddwn yn llenwi taflen yn nodi enw'r plentyn, enw'r feddyginiaeth ac amser pan roddir y feddyginiaeth i'r plentyn.

Anadlyddion Asthma

- ⊙ Oherwydd bod nifer o blant yn dod ag anadlyddion i'r ysgol, mae ffurflen B wedi ei llenwi gan y rhieni'n ddigonol ynddi ei hun. Derbynnir ffurflenni A wedi eu harwyddo gan y meddyg os yw`r rhieni yn dymuno eu dychwelyd.

- Nid yw'r ysgol yn gyfrifol am unrhyw golled neu niwed i eiddo personol y disgyblion.
- Disgwylir i bob rhiant sicrhau bod enw'r plentyn wedi ei labelu'n glir ar bob dilledyn ac eiddo personol.
- Disgwylir i bob plentyn newid i ddillad addas i wersi addysg gorfforol.
- Ni chaniateir gwisgo clustlysau sy'n hongian o'r glust tra ar dir yr ysgol.
- Disgwylir i bob plentyn barchu eiddo'r ysgol yn enwedig pan fydd offer neu lyfrau ar fenthyg i'r plant fynd â hwy adref.
- Disgwylir i bob plentyn ymddwyn yn gwrtais a chymwynasgar gan gadw rheolau a chanllawiau ymddygiad yr ysgol.
- Mewn achos o gamymddwyn bydd yr ysgol yn dilyn gweithdrefn ddisgyblu yr ysgol all olygu galw rhieni i mewn i drafod y sefyllfa neu gadw'r plentyn i mewn amseroedd chwarae.

LLEFRITH A FFRWYTHAU

Mae`r ysgol yn gweithredu cynllun lle mae`r plant yn derbyn bag plastig traean o beint llefrith cyflawn yn ystod egwyl y bore. Yn ôl trefniadau Cyngor Gwynedd mae pob plentyn dan saith oed yn derbyn llefrith am ddim. Nid ydym yn fodlon i blant ddod â fferins o gwbl i`r ysgol ac yn sicr ni chaniateir taffi cnoi dan unrhyw amgylchiadau. Gan ein bod yn `Ysgol Sy`n Hybu Iechyd` rhoddwn y cyfle i bob plentyn ddewis ffrwyth i`w fwyta`n ddyddiol. Byddant yn talu £1 yr wythnos am eu ffrwythau.

TREFNIANT Y BWS YN Y BORE

Bydd y bws yn cychwyn o Lithfaen am 8.25 o'r gloch ac yn codi plant ym Mhistyll am 8.30 o'r gloch ac yn Nant y Felin am 8.35 o'r gloch. Bydd y bws yn cyrraedd yr ysgol am 8.40 o'r gloch. Aiff y bws ymlaen i Morfa Nefyn gan godi plant yn Cae Coch am 8.45 ac yna dychwelyd i Ysgol Nefyn. Bydd brecwast ar gael i`r plant sy`n dymuno derbyn brecwast pan gyrhaeddant yr ysgol.

TREFNIANT Y BWS YN Y PRYNHAWN

Bydd y bws yn cychwyn o'r ysgol gyda phlant Morfa Nefyn am 3.15 y prynhawn. Yna bydd yn dychwelyd i'r ysgol i godi plant Nant y Felin, Pistyll a Llithfaen (rhwng 3.25 a 3.30 y prynhawn). Pris y bws i blant Morfa Nefyn yw 20c bob ffordd. Ni chodir tâl ar blant Pistyll a Llithfaen am drafeilio ar y bws yn dilyn canllawiau Cyngor Gwynedd.
Os fydd unrhyw newidiadau i drefniadau arferol diwedd dydd, a fuasech mor garedig â gadael i`r ysgol wybod **drwy lythyr neu dros y ffôn** ar y diwrnod hwnnw. Rydym yn cymeryd gofalaeth dros blant o ddifrif calon, e.e. os y trefnir parti pen-blwydd, yna dylid anfon yr wybodaeth cludiant perthnasol i`r ysgol drwy

lythyr, os gwelwch yn dda, fel y medrwn drefnu i`r plant gael eu trosglwyddo adref yn drefnus a diogel.

ADDYSG GORFFORL A GEMAU YN YSGOL NEFYN

Mae'r ysgol hon yn rhoi cryn bwyslais ar Addysg Gorfforol a Gemau. Bydd disgyblion yr ysgol yn mwynhau amrywiaeth eang o brofiadau Addysg Gorfforol. Darperir cyfleoedd a fydd yn eu galluogi i gynllunio, i gymryd rhan mewn ac i'w werthuso amrywiaeth o weithgareddau sy'n briodol i'w hoed a'u hanghenion. Yn ogystal â gwella sgiliau corfforol, iechyd a ffitrwydd ein plant credwn fod datblygu gwerthfawrogiad o' cysyniad o chwarae teg a cystadleuaeth onest yn hanfodol bwysig.
Byddwn yn annog pawb sydd yn gysylltiedig â'r ysgol i fabwysiadu ymrwymiad gydol oes i ffordd iach, weithgar a phleserus o fyw.

Disgwylir i bob disgybl gymryd rhan ymhob gweithgaredd Addysg Gorfforol a gynigir gan yr ysgol. Esgusodir disgyblion rhag cymryd rhan drwy nodyn gan riant yn unig. Symbylir y disgyblion drwy'r gweithgareddau hyn i barchu eu hiechyd ac i ymdrechu hyd eithaf eu gallu ar bob achlysur.

Disgwylir i'r Babanod wisgo trowsus byr a chrys 'T' gydag esgidiau ysgafn ar gyfer y gwersi. Gofynnir i rieni gadw'r dillad yn yr ysgol am y tymor.
Disgwylir i'r disgyblion lau wisgo trowsus byr a chrys 'T' gydag esgidiau ysgafn ar gyfer y gwersi a'u dychwelyd adref ar ddiwedd pob wythnos.
Os bydd plentyn yn dymuno cael ei esgusodi o wersi Addysg Gorfforol am resymau meddygol rhaid cael nodyn gan ei riant.

GWERSI NOFIO

Bydd cyfle i blant Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 fynychu gwersi nofio'n ystod y flwyddyn. Gofynnir i'r rhieni gyfrannu £1.80 tuag at gost y bws.

GWEITHGAREDDAU YCHWANEGOL

Gobeithia'r ysgol sicrhau cyd-weithrediad a chefnogaeth y rhieni gyda'r holl weithgareddau ychwanegol a drefnir.

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau sy'n agored i holl ddisgyblion yr ysgol sydd ym marn y Pennaeth yn aeddfed ac yn barod i gymryd rhan ynddynt e.e. Clwb cerdded, pêl-droed a.y.y.b.

Ni all yr ysgol dderbyn cyfrifoldeb am oruchwylio plant ar derfyn sesiynau'r clybiau / cymdeithasau uchod, a gofynnir i rieni / gwarcheidwaid sichau eu bod yn gwneud trefniadau i hebrwng eu plant adref.

GWERSI CERDD

Mae'r ysgol yn derbyn gwasanaeth cerdd peripatetig (Cynllun William Mathias) sy'n golygu y gellir cynnig gwersi offerynnol i'r disgyblion. Codir tâl o £20 y tymor

am y gwersi, oni bai fod y rhiant yn derbyn cymorth incwm. Y gwersi a gynigir ar hyn o bryd yw Corn,Telyna Gitâr.

GWISG YSGOL

Mae gan yr ysgol hon wisg swyddogol. Teimlir bod gwisg ysgol yn arwain at feithrin balchder yn yr ysgol ac ymdeimlad o berthyn iddi. Bydd y plant yn gwisgo crys polo melyn a chrys chwys glas tywyll gyda logo'r ysgol wedi ei frodio arnynt. ynghyd â throwsus neu sgert glas tywyll. Mae'r Corff Llywodraethu wedi penderfynu, wedi proses o ymgynhori â'r rhieni, yr hoffai weld y disgyblion yn gwisgo'r wisg ar bob achlysur.
*Ceir gwybodaeth ynglyn â phrisiau y siwmperi a'r crysau polo gan y Brifathrawes neu'r Uwch Gymhorthydd.

NODER: **Mae`n hanfodol rhag cymysgu dillad bod enw/au eich plentyn/plant ar bob dilledyn!**

Gwisgir trowsusau glas tywyll hir gan y genethod a`r bechgyn yn ogystal (neu rai du os nad oes rhai glas tywyll ar gael) – trowsusau polyester taclus, nid tracwisgiau. Ni chaniateir jîns o unrhyw fath. Yn yr Haf, os dymunir, gellir gwisgo trowsusau glas tywyll/du byr neu ffrogiau gingham glas a gwyn.

Anogir y plant i wisgo esgidiau du doeth (dim sodlau mawr) ac i gael pâr o esgidiau ychwanegol i newid iddynt ar gyfer chwaraeon.

Gwisgir crysau polo melyn gyda logo`r ysgol arnynt a chrysau chwys glas tywyll gyda logo`r ysgol arnynt. (Medrir archebu`r rhain yn yr ysgol neu gellir prynu`r crysau polo o siopau heb y logo).

Caniateir gwisgo clustlysau styds ond nid ar ddiwrnodau pan mae gwersi nofio, os gwelwch yn dda. Anogir y plant i glymu gwalltiau hir er diogelwch a glanweithdra.

ABSENOLDEB O`R YSGOL

Y mae rheoliadau'r Cynulliad Cenedlaethol parthed absenoldebau o'r ysgol yn datgan fod yn rhaid i ysgol dderbyn eglurhad gan rieni pan fo plentyn wedi bod yn absennol o'r ysgol. Felly, er mwyn cyd-fynd â'r canllawiau hynny, os na fyddwn yn derbyn eglurhad yn uniongyrchol gennych chwi, boed hynny ar lafar neu ar ffurf nodyn, pan fydd eich plentyn wedi bod yn absennol o'r ysgol, bydd yr absenoldeb hwnnw yn cael ei nodi fel un "heb ei awdurdodi". Hyd yn oed os y derbynnir yr eglurhad gennych, mae'n bosib y caiff yr absenoldeb ei nodi fel un "heb ei swdurdodi" os nad yw'r eglurhad yn un derbyniol.

Atgoffir rhieni am eu cyfrifoldeb cyfreithiol ynglŷn â phresenoldeb eu plant yn yr ysgol. Gall yr ysgol hysbysu`r Awdurdod Addysg os yw plentyn yn absennol yn aml neu am gyfnod hir.
Dylid cael llythyr gan y rhieni neu eglurhad ar lafar resymau am ei absenoldeb pan ddychwela`r plentyn i`r ysgol.

Os dymuna unrhyw riant gasglu eu plentyn cyn diwedd diwrnod ysgol dylid cael llythyr neu alwad ffôn yn gofyn caniatâd.

Dylai unrhyw riant sydd yn bwriadu mynd â`i blentyn ar wyliau yn ystod tymor ysgol gysylltu â`r ysgol ac anfon llythyr cyn y gwyliau i egluro`r absenoldeb. **Yn ôl canllawiau`r Cynulliad caniateir 10 diwrnod ysgol y flwyddyn o absenoldeb oherwydd gwyliau blynyddol (h.y. pythefnos), Yna ar ôl y degfed diwrnod bydd y plentyn yn cael ei farcio`n `absennol heb awdurdod ar gofrestr yr ysgol.**

Ni chaiff unrhyw blentyn ddychwelyd adref yn ystod oriau ysgol heb rybudd neu ganiatâd ag eithrio mewn amgylchiadau arbennig.

Os oes gan y plentyn apwyntiad meddygol neu ddeintyddol, gofynnir i'r rhiant adael i'r ysgol wybod ymlaen llaw.

PRESENOLDEBAU AM Y FLWYDDYN 2007 / 2008

	Babanod	**Blwyddyn 3**	**Blwyddyn 4**	**Blwyddyn 5**	**Blwyddyn 6**
Presenoldebau	93%	95.9%	94.4%	94.2%	94.8%
Absenoldebau	7%	4.1%	5.6%	5.8%	5.2%
Awdurdodedig					
Anawdurdodedig	0	0	0	0	0

PRESENOLDEBAU AM Y FLWYDDYN 2008 / 2009

	Babanod	**Blwyddyn 3**	**Blwyddyn 4**	**Blwyddyn 5**	**Blwyddyn 6**
Presenoldebau	93.9%	95.1%	95.6%	94.9%	95.2%
Absenoldebau	6.1%	4.9%	4.4%	5.1%	4.8%
Awdurdodedig					
Anawdurdodedig	0	0	0	0	0

PERFFORMIAD YR YSGOL

Canlyniadau Asesiad Athrawes 2008

Cyfnod Allweddol 1

Lefel	E	W	1	2	3	Canran 2+
Cymraeg	0	0	17.6%	76.5%	5.9%	82.4%
Mathemateg	0	0	0	76.5%	23.5%	100%
Gwyddoniaeth	0	0	0	100%	0	100%

Canlyniadau Asesiad Athrawes 2008

Cyfnod Allweddol 2

Lefel	E	W	1	2	3	4	5	Canran 4+
Saesneg	0	0	0	0	14.8%	63%	22.2%	85.2%
Cymraeg	0	0	0	0	14.8%	51.9%	33.3%	85.2%
Mathemateg	0	0	0	0	25.9%	59.3%	14.8%	74.1%
Gwyddoniaeth	0	0	0	0	14.8%	66.7%	18.5%	85.2%

Canlyniadau Asesiad Athrawes 2009

Cyfnod Allweddol 1

Lefel	E	W	1	2	3	Canran 2+
Cymraeg	0	0	0	50%	50%	100%
Mathemateg	0	0	0	91.7%	8.3%	100%
Gwyddoniaeth	0	0	0	100%	0	100%

Canlyniadau Asesiad Athrawes 2009

Cyfnod Allweddol 2

Lefel	E	W	1	2	3	4	5	Canran 4+
Saesneg	0	0	0	0	14.2%	42.9%	42.9%	85.8%
Cymraeg	0	0	0	0	7.1%	67.9%	25%	92.9%
Mathemateg	0	0	0	0	17.9%	67.8%	14.3%	82.1%
Gwyddoniaeth	0	0	0	0	17.9%	60.7%	21.4%	82.1%

YMDDYGIAD

Disgwylir i bob plentyn ddilyn y rheolau a amlinellir isod:-

Dyma'r math o ymddygiad sy'n cael ei annog

- gwrando yn astud bob amser nid yn unig ar oedolion ond ar gyd-ddisgyblion
- ymddwyn yn gwrtais bob amser
- ymdrechu i ddweud 'diolch' ac 'os gwelwch yn dda' bob amser
- parchu a gofalu am offer ac eiddo yr ysgol neu unrhyw berson arall
- cerdded tu mewn i adeilad yr ysgol bob amser
- ymdrechu i barchu a gofalu am gyd-ddisgyblion bob amser
- ymdrechu i gadw'r ysgol yn daclus
- bod mor dawel â phosibl tu mewn i adeilad yr ysgol
- ufuddhau yn gwrtais i unrhyw orchymyn neu gyfarwyddyd
- cyflwyno gwaith yn daclus bob amser.
- gweithio'n ddiwyd heb orfodaeth

Nid ydym yn goddef y math yma o ymddygiad:-

- siarad ar draws
- ateb yn ôl neu herio awdurdod
- gwrthod cyfaddef bai
- dweud celwydd o unrhyw fath
- gwatwar neu amharchu cyd-ddisgyblion mewn unrhyw fodd
- gadael y dosbarth heb ganiatâd
- amharchu offer/eiddo'r ysgol neu berson arall
- defnyddio offer heb ganiatâd
- rhedeg oddi fewn i adeilad yr ysgol
- taro/ymladd/herio unrhyw blentyn arall mewn unrhyw ffordd
- dwyn/benthyg eiddo plentyn arall heb ganiatâd.

GWAITH CARTREF

Gosodir gwaith cartref ffurfiol i'r plant. Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau rhifedd a llythrennedd. Yn ogystal bydd cyfle i'r plant weithio ar themâu neu brosiectau unigol a phan ddigwydd hynny gobeithir y bydd y cartref yn cydweithredu i hybu gwaith y plant. Erbyn hyn mae cyfle i ganfod beth yw gwaith cartref yr ysgol yn wythnosol ar safle we yr ysgol.

Byddai o fantais fawr pe byddai pob rhiant yn annog eu plentyn i ddarllen yn rheolaidd ac yn ymarfer eu tablau.

Ambell i dro bydd gweithgarwch arbennig yn gofyn am wybodaeth gan rieni a pherthnasau a chymdogion, neu'n gofyn am waith holi a darganfod ar ran y plant. Sylweddolir mai cyfrifoldeb y cartref yw'r plentyn yn ystod yr oriau hyn ac mai yng ngoleuni'r cyfrifoldeb hwnnw y bydd rhieni yn cytuno neu'n anghytuno i gydweithredu.

O dro i dro gall athro/athrawes ofyn i blentyn wneud gwaith ychwanegol er mwyn dileu rhyw wendid ar agwedd arbennig o'r gwaith. Bryd hynny gobeithir cael cydweithrediad llwyr y cartref ac anogaeth i'r plentyn i gwblhau'r gwaith. Pan ddigwydd hynny gobeithir y bydd y cartref yn cydweithredu i hybu gwaith y plant.

DARLLEN

Mae'r ysgol hon yn rhoi pwyslais mawr ar ddarllen a rhoddir benthyg llyfrau i'r plant fynd adref drwy gydol eu hamser yn yr ysgol. **Byddai o fudd mawr petai rhieni yn gwrando ar eu plant yn darllen yn gyson. Mae Cynllun Darllen ar y Cyd yn weithredol yn yr ysgol gyda'r holl ddisgyblion boed yn cael trafferth gyda'i darllen ai peidio.**

CYNLLUN DARLLEN GARTREF

Bob dydd Llun a dydd Gwener bydd y disgyblion yn cael cyfle i ddewis llyfr/llyfrau i ddarllen gartref. Byddant yn cael bag plastig pwrpasol i gludo'r llyfr/llyfrau i'w cartref, ac yna yn ôl i'r ysgol yn ddiogel. Disgwylir iddynt ddarllen y llyfr/llyfrau, a'u dychwelyd i'r ysgol y dydd Llun canlynol. Bydd pob plentyn yn cael llyfryn pwrpasol ar gyfer cadw cofnod o'r llyfrau y maent wedi eu benthyg, ac i chwi gael ysgrifennu sylw ar eu darllen. Yn y llyfryn hefyd, ceir canllawiau, tebyg i'r hyn a welwch isod, ynglyn â sut y gallwch gynorthwyo eich plentyn gyda'i darllen.

Canllawiau ar gyfer cynorthwyo eich plentyn gyda'i ddarllen

1. Ceisiwch gael amser arbennig bob diwrnod ar gyfer darllen i'ch plentyn a gyda'ch plentyn. Gadewch i'r cyfnod hwn o ddarllen fod yn gyfnod byr, pleserus.
2. Yn y dyddiau cynnar fe sylweddolwch mai cofio geiriau mae plant bach yn aml ac nid eu darllen. Mae hyn yn rhywbeth arferol sydd i'w ddisgwyl.
3. Gadewch i'ch plentyn ddefnyddio'r lluniau i'w cynorthwyo i ddehongli'r geiriau.

4. Peidiwch a bod yn or-awyddus i ymyryd os yw eich plentyn yn cael trafferth gyda gair ond os yw'r gair yn un diethr yna gallwch ddweud y gair. Byddwch yn amyneddgar pan fydd eich plentyn yn cael trafferthion a byddwch yn barod i ganmol pob llwyddiant.
5. Peidiwch â bod yn siomedig os yw eich plentyn yn awyddus i ddarllen yr un storiau drosodd a throsodd. Buan y mae plant yn sefydlu stôr o hoff lyfrau.
6. Parhewch i ddarllen stori cyn mynd i'r gwely i'ch plentyn cyhyd ag y mae yn mwynhau'r profiad.
7. Wedi i chwi orffen darllen stori i blant bach gallwch chwarae gêm fach syml gyda hwy. Dangoswch air iddynt sydd yn ymddangos nifer o weithiau ar y dudalen ac yna gofynnwch iddynt ddangos y gweddill i chi.
8. Y mae'n rhwyddach i blentyn ganolbwyntio ar wrando ar stori neu ar ei ddarllen mewn awyrgylch tawel. Felly, os oes gennych deledu, cofiwch ei diffodd cyn dechrau ar y darllen.

PATRWM GWAITH

Ceisir sicrhau bod yr addysg a ddarperir yn hybu datblygiad moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol pob disgybl a bod natur y cwricwlwm cyflawn yn wahaniaethol, eang a chytbwys. I ymateb â'r gofynion hyn bydd trefniadaeth y dosbarth yn hyblyg, weithiau darperir gwaith ar sail oedran plant, dro arall bydd plant o ystod oedran sy'n rhychwantu mwy nag un blwyddyn ysgol yn cydweithio ar yr un dasg.

Y CWRICWLWM

Yn unol â gofynion Deddf Addysg 1986, mae'r Awdurdod Addysg wedi llunio ac yn bwriadu adolygu'n rheolaidd ddatganiad ysgrifenedig o'i bolisi mewn perthynas â'r cwricwlwm secwlar. Dehonglir gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyd-destun athroniaeth a pholisïau presennol yr Awdurdod.

Dyfynnir isod ragair ac amcanion cyffredinol y datganiad fel y gwelir hwynt yn nogfen yr Awdurdod Addysg.

Rhagair

Pwrpas cyfundrefn addysg yw creu sefyllfaoedd a chyflenwi adnoddau fydd yn galluogi pob plentyn i dyfu yn bersonoliaeth lawn, datblygu ac ymarfer ei holl ddoniau, fydd yn darparu ar ei gyfer yn ôl oedran, gallu a diddordeb, ac yn ei gymhwyso i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog, yn aelod fydd yn gallu cyfrannu iddi a derbyn oddi wrthi, a byw mewn heddwch a brawdgarwch gyda'i gyd-ddyn.

Mae i'r datganiad cyffredinol hwn dair agwedd gyd-berthnasol:

a) galluogi pob plentyn i ddatblygu i'w lawn botensial

b) sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gyflwyno i'r etifeddiaeth Gymreig

c) rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu fel aelod llawn o gymdeithas sy'n prysur newid.

Y Cyfnod Sylfaen

Mae Y Cyfnod Sylfaen yn statudol oers Medi 2008
Medi 2008 Meithrin a Derbyn
Medi 2009 Blwyddyn 1
Medi 2010 Blwyddyn 2

Erbyn 2010 ni astudir y Cwricwlwm Cenedlaethol. Cyflwynir y Cyfnod Sylfaen i blant o 3 – 7 oed.

Mae llwyddo i gynnal Y Cyfnod Sylfaen i'w lawn potensial yn gloygu cyd blethu sawl maes gyda'i gilydd gan sicrhau fod cyd-weithio clos rhwng tîm cyson. Gallwch rannu'r Cyfnod Sylfaen i'r 5 maes canlynol. Plant, Athro, Cymhorthyddion, Dosbarth a'r rhieni.
Plant – Mae'n hanfodol fod cyfleoedd i'r plant wneud dewisiadau a chynnig syniadau am ei addysg ei hunain. Drwy hyn annogir annibyniaeth sydd mor elfennol a nôl a cadw offer. Datblygir y gallu o gydweithio a chydweithio a dylid cynnig hyn mewn amrywiaeth eang o brofiadau. Annogir y plant i allu canolbwyntio a chadw ar dasg a fewn ardal, gan geisio rheoli y nifer sy'n addysgu ar unwaith ymhob ardal y annibynnol.

Athrawes – Wrth gynllunio disgwylir tystiolaeth fod cydbwysedd yn cael ei baratoi ar draws y saith maes allweddol.
Gwybodaeth a Dealltwriarth o'r byd, Datblygiad Corfforol, Datblygiad Creadigol, Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol, Iaith Llythrennnedd a Chyfathrebu, Datblygiad Mathemategol a Datblygu'r Gymraeg.
Cynllunir yr ardaloedd gwahanol i gyfoethogi'r holl dysgu ac addysgu. O gael dosbarth cymysg mae'n bwysig sicrhau disgwyliadau uchel o'r plant. Drwy baratoi'r gweithgareddau ar heriau fod cynhaliaeth i unigolion a grwpiau. Fel athro dosbarth rhaid sicrhau amser i arsylwi'r plant fydd yn bwydo i'w cynlluniau gwaith ac yn arwain i asesu cadarn ac i bwrpas.

Cymhorthyddion – Yn aelodau hanfodol o'r tîm addysgu dylid Gwrfoddolwyr gwarantu ei bod yn gwbl ymwybodol o'r hyn sy'n ofynnol ohonynt. Dylid ymarfer perthynas dda â'r plant a phatrymu iaith safonol. Mae'r plant angen ei gweld yn cyfrannu a chymerd rhan mewn gweithgareddau ymarferol megis drama ac amser cylch.

Dosbarth – O fewn yr ardal addysgu rhaid gallu gweld yr holl ardaloedd gwaith wedi ei diffino'n glir. Mae angen labelu yr holl offer gan addasu a newid ardaloedd i gyd fynd a themau. O ran storio offer mae angen sicrhau fod modd i'r plant nôl ei adnoddau yn annibynnol a chydymffurfio â rheolau dosbarth ar mwyn sicrhau ardal ddiogel i weithio.

Rhieni – Mae'r rhieni yn rhan allweddol o'r tîm addysgu ac er ni rhoddir gwaith catref wythnosol disgwylir iddynt drafod gwaith y dosbarth yn ddyddiol ac ymchwilio gyda'r plant i gysylltiadau gyda'r thema'r dosbarth

Bydd gwybodaeth am themau a gwaith y plant yn cael ei rannu gan yr athrawes ddosbarth fel bo'r angen, a gellir cyfeirio at safle wê yr ysgol am gopiau ychwanegol.

Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru 2008

Strwythur y cwricwlwm cenedlaethol
Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn berthnasol i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion a gynhelir. Fe'i trefnir ar sail tri chyfnod alweddol, a dyma nhw yn fras:

	Oedran y disgyblion	Grwpiau blwyddyn
Cyfnod Allweddol 2	7 -11	3 -6

Yng Nghymru, mae'r pynciau canlynol yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm cenedlaethol yn y cyfnodau allweddol a ddangosir.

Cyfnod Allweddol 2 : Cymraeg, Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg, technoleg gwybodaeth achyfartebu, hanes, daearyddiaeth, celf a dylunio, cerddoriaeth ac addysg gorfforol.

Ar gyfer pob pwnc, ym mhob un o'r cyfnodau allweddol a restrir uchod, mae rhaglenni astudio yn pennu'r hyn y dylid ei ddysgu i'r disgyblion ac, ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2, mae targedau cyrhaeddid yn nodi safonau'r perfformiad a ddisgwylir gan y disgyblion.

Cynnwys pob dysgwyr
Cyfrifoldebau ysgolion

Yn ôl confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a dogfen strategaeth drosfwaol Llywodraeth Cymru, Gweithredu'r Hawliau, rhaid sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn derbyn addysg sy'n datblygu eu personoliaeth a'u talentau yn llawn. Mae Deddf Addysg 2002 yn cryfhau ymhellach ddyletswydd ysgolion i ddiogelu a hyrwyddo lles pob plentyn a pherson ifanc.
Mae'r ddeddfwriaeth cyfle cyfartal sy'n cwmpasu oedran, anabledd, rhyw, hil, crefydd a chred, a chyfeiriadedd rhywiol yn gosod dyletswydd bellach ar ysgolion yng Nghymru tuag at y dysgwyr presenol a darpar ddysgwyr, sef cael gwared ar wahaniaethau ac aflonyddwch, hyrwyddo agweddau cadarnhaol a chyfle cyfartal, ac annog cyfranogiad ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Dylai ysgolion feithrin ym mhob dysgwr ymdeimlad o hunaniaeth bersonol a diwylliannol sy'n dderbyngar ac yn parchu eraill. Dylai ysgolion gynllunio ar draws y cwricwlwm i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau, gwerthoedd ac agweddau a fydd yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan yn ein cymdeithas amlethnig yng Nghymru. Dylai ysgolion ddatblygu ymagweddau sy'n cefnogi hunaniaeth ethnig a diwylliannol pob dysgwr ac sy'n adlewyrchu ystod o safbwyntiau, er mwyn cael ymrwymiad dysgwyr a'u paratoi am fywyd fel dinasyddion byd-eang. Rhaid i ysgolion weithio i leihau rhwystrau amgylcheddol a chymdeithasol i gynhwysiant a darparu cyfleoedd i'r holl ddysgwyr fel eu bod yn cyflawni eu potensial yn llawn wrth baratoi addysg bellach a bywyd. Lle bo'n briodol, bydd angen i ysgolion gynllunio a gweithio gyda gwasanaethau arbenigol i sicrhau y caiff dysgwyr brofiadau perthnasol a hygyrch.
Ar gyfer dysgwyr ag anableddau yn enwedig, dylent:

- wella mynediad i'r cwricwlwm.
- gwneud gwelliannau ffisegol i gynyddu cyfranogiad mewn addysg.
- darparu gwybodaeth mewn fformatau priodol.

Dylai ysgolion geisio cyngor ynglŷn ag addasiadau rhesymol, gweithgareddau amgen/ addasedig ac offer ac adnoddau priodol y gellir eu defnyddio i gefnogi cyfranogiad llawn gan yr holl ddysgwyr, gan gynnwys rhai sy'n defnyddio dull arall o gyfathrebu heblaw am iaith lafar.
A gyfer dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf, dylai ysgolion gymryd camau penodol i'w helpu i ddysgu Cymraeg a Saesneg drwy'r cwricwlwm. Dylai ysgolion ddarparu deunydd i ddysgwyr sy'n cyfatebu â'u gallu, eu haddysgu a'u profiad blaenorol, ac sy'n ymestyn eu datblygiad ieithyddol. Dylai ysgolion hefyd annog y defnydd o ieithoedd cartref y dysgwyr wrth ddysgu.

<u>Hawliau dysgwyr</u>

Dylai ysgolion yng Nghymru sicrhau bod pob dysgwyr yn ymrwymo'n aelodau llawn o gymuned eu hysgol, ac yn cael mynediad i'r cwricwlwm ehangach a holl weithgareddau'r ysgol gan weithio ochr yn ochr â'u cyfoedion lle bo hynny'n bosibl. Dylai'r ysgol addasu'r holl raglenni astudio a fframwaithiau mewn modd sy'n cyfatebu i aeddfrdrwydd a gallu dysgwyr sy'n dal i ddatblygu. Dylai hefyd sicrhau bod dysgwyr yn gallu gwneud defnydd llawn o'u dull dewisedig o gyfathrebu er mwyn cael mynediad i'r cwricwlwm. i ehangu eu dysgu, dylai dysgwyr brofi amrywiaeth o arddulliau dysgu ac addysg.
Er mwyn galluogi pob dysgwyr i fanteisio ar sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol ar bob lefel, gall ysgolion ddefnyddio cynnwys o gyfnodau neu gyfnodau allweddol blaenorol o fewn y cwricwlwm. Dylai ysgolion ddefnyddio deunyddiau mewn modd sy'n addas i oedran, profiad, diddordeb yn y broses ddysgu.
Ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio ar lefel sy'n llawer is na'r hyn a ddisgwylir mewn unrhyw gyfnod allweddol, dylai ysgolion ddefnyddio anghenion y dysgwr fel man cychwyn ac addasu rhaglenni astudio i gyfatebu â'r anghenion hynny. Mae'r cwricwlwm yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion dysgwyr heb orfod datgymhwyso. Mewn achosion eithriadol, gellir datgymhwyso dysgwyr unigol, am gyfnod dros dro fel arfer. Serch hynny, ni ddylid datgymhwyso grwpiau na datgymhwyso ar raddfa fawr.
Os nad oes modd ymdrin â chynnwys yr holl raglenni astudio ar gyfer pob cyfnod allweddol, gellir bodloni'r gofyniad statudol i ddarparu cwricwlwm eang a

chytbwys drwy ddewis pynciau/themâu priodol o'r cwricwlwm yn gyd-destunau ar gyfer dysgu.
Ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog sy'n gweithio ar lefelau uwch, dylai ysgolion gynnig mwy o her iddynt drwy ddefnyddio deunyddiau mewn modd sy'n ymestyn ehangder a dyfnder yr astudio a chyfleoedd i ddysgu'n annibynnol. Gellir cynyddu'r her hefyd drwy ddatblygu a chymhwyso meddwl, a sgiliau cyfathrebu, TGCh a rhif ar draws y cwricwlwm.
Dylai ysgolion ddewis deunydd a fydd yn:

- Darparu cwricwlwm ystyrlon a pherthnasol sy'n cymell eu dysgwyr.
- Diwallu anghenion penodol eu dysgwyr a hyrwyddo'u datblygiad yn gyffredinol.

Dylai dysgwyr o bob gallu gael mynediad i asesu ac achredu priodol.

Sgiliau ar draws y cwricwlwm
Mae " Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru" anstatudol wedi cael ei ddatblygu er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad y dilyniant mewn datblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif i ddysgwyr 3 – 19 oed.
Yng Nghyfnodau Allweddol 2, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y sgiliau y maent wedi dechrau eu caffael a'u datblygu yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r dysgwyr barhau i gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'r sgiliau hyn trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Gellir gweld cynnydd yn nhermau mireinio'r sgiliau hyn a thrwy eu cymhwyso i dasgau sy'n symud o'r diriaethol i'r haniaethol; syml i'r cymhleth; personol i'r darlun mawr; cyfarwydd i'r anghyfarwydd; a dibynnol i'r annibynnol a'r cyd-ddibynnol.

Datblygu meddwl
Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio, datblygu** a **myfyrio.**

Datblygu cyfathrebu
Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau **llafaredd, darllen, ysgrifennu** a **chyfathrebu ehangach.**

Datblygu TGCh
Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

Datblygu rhif
Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno casgliadau.**

Dysgu ar draws y cwricwlwm
Yng Nghfnodau Allweddol 2, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen, a hybu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru, eu datblygiad personol a chymdeithasol a'u lles, a'u hymwybyddiaeth o'r byd gwaith.

Y Cwricwlwm Cymreig (7-14) a
Chymru, Ewrop a'r Byd (14-19)
Dylai dysgwyr 7 – 14 oed gael cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeyth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.

Addysgu bersonol a chymdeithasol
Dylai dysgwyr gael cyfle i hyrwyddo eu iechyd a'u lles emosiynol a'u datblygiad moesol ac ysbrydol; bod yn ddinasyddion gweithgar a hybu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; a pharatoi ar gyfer dysgu gydol oes.

Amcanion Cyffredinol

1. Datblygu sgiliau llafaredd, llythrennedd a rhifedd yng nghyd-destun symbylu chwilfrydedd, dychymyg a diddordeb plentyn.

2. Cynyddu gwybodaeth y plentyn a datblygu ei allu i resymu er mwyn ei gynorthwyo i addasu i fyd sy'n gyflym newid ac yn mynd yn fwy soffistigedig yn ei brosesau a'i dechnegau, yn arbennig mewn perthynas â thechnoleg hysbysiaeth.

3. Creu ym mhob plentyn yr awydd i geisio am fwy o wybodaeth a phrofiadau yn ystod ei fywyd a datblygu ei feddwl a'i synnwyr moesol ac ysbrydol.

4. Cynorthwyo'r plentyn i fedru byw a gweithio gydag eraill a datblygu agweddau fydd yn ei alluogi i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas.

5. Datblygu yn y plentyn sensitifrwydd, gwerthfawrogiad esthetig a sgiliau hamdden.

6. Rhoi sylw arbennig i bob plentyn sydd ag anghenion arbennig, e.e. rhai eithriadol o alluog a rhai sydd dan anfanteision amrywiol.

7. Cyflwyno syniadau a chysyniadau a hynny trwy ddulliau bywiog a deinamig sy'n hawlio ymateb y disgybl.

Mae'n ofynnol i bob ysgol baratoi a datblygu cynllun cynhwysfawr, yn seiliedig ar ddogfen yr Awdurdod Addysg ac yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys manylion am y cwrs addysg a'r modd mae'n cael ei weithredu er mwyn sicrhau bod yr addysg a gyfrennir i'r disgyblion yn cyfarfod yn llawn â'r amcanion sydd yn y ddogfen.

MYNEDIAD I DDOGFENNAU SY`N YMWNEUD Â CHWRICWLWM YSGOL NEFYN

Mae croeso i bob rhiant gael mynediad i ddogfennau sy`n ymwneud â`r Cwricwlwm
Mae rhestr o'r holl bolisiau ar gael yn yr ysgol.

TREFN GWYNO

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol, yn unol â gofynion yr Ysgrifennydd Gwladol, dan Adran 23 o Ddeddf Diwygio Addysg 1980, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd mae cyrff llywodraethu'r ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig. Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrpasol yn y Gymraeg a Saesneg sydd ar gael yn yr ysgol. Darperir copi'n rhad ac am ddim, yn ôl y gofyn, i unrhyw rieni sy'n dymuno gwneud cwyn dan y trefniadau hyn, a gall yr Awdurdod ddarparu copi mewn iaith heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg os bydd hynny'n angenrheidiol. Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Pennaeth.Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gwyn yn ffurfiol mewn achosion eithriadol.

Dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gwyn gyda'r Pennaeth.

CRYNODEB O'R POLISI YNGLYN Â CHODI TAL

1. Codir tâl llawn ar rieni disgyblion

   i) am gostau bwyd a llety ar gyfer gweithgareddau preswyl a drefnir gan yr ysgol neu'r A.A.Ll.

   ii) teithio i wersi nofio

   iii) am wersi offerynnol cerdd gyda gostyngiad i'r rhieni hynny sy'n derbyn Cymorth Incwm.

<u>CODI TÂL AM WEITHGAREDDAU ADDYSGOL</u>

1. Nid oes gan ysgolion bellach yr hawl i godi tâl am weithgareddau megis teithiau ysgol, ymweliadau â'r theatr ac yn y blaen. Felly, gwirfoddol fydd unrhyw gyfraniadau gan rieni tuag at gôst gweithgareddau o'r fath. Rhaid pwysleisio fodd bynnag, oni bai fod y rhieni i <u>gyd</u> yn gefnogol, gall fod yn amhosibl trefnu gweithgareddau o'r fath yn y dyfodol.

2. Ni chodir tâl am fwyd a llety disgybl sy'n mynychu cyrsiau at ddibenion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

3. Gyda gweithgareddau dewisol, sy'n digwydd o bryd i'w gilydd yn ystod oriau ysgol, gofynnir am gyfraniadau gwirfoddol gan rieni.

(Hysbysir y rhieni yn y dechrau mai gwirfoddol yw unrhyw gyfraniadau ond cedwir yr hawl i beidio parhau ag unrhyw drefniadau os nad oes digon o gyfraniad wedi dod i law).

Anfonir llythyr at y rhieni cyn ymweliad, gwibdaith, perfformiad a.y.y.b. yn cyhoeddi bwriad yr ysgol ac yn nodi`r gost.
Dirprwyir i`r Pennaeth yr hawl i benderfynu i ba raddau, os o gwbl, y defnyddir arian allan o gronfa`r ysgol neu ffynhonnell arall i dalu cyfran o gost y gweithgareddau.
Dirprwyir i`r Pennaeth yr hawl i benderfynu ar achosion sy`n codi wrth weithredu`r polisi hwn.

CASGLIAD
Mae`r polisi hwn yn datgan safbwynt pwysig gan yr ysgol. Gobeithir ysgafnhau`r baich ariannol ond, ar yr un pryd, diogelu`r cyfleodd i bob plentyn allu elwa o holl weithgareddau, ymweliadau a threfniadau`r ysgol.

DARPARIAETH AR GYFER PLANT AG ANGHENION ARBENNIG

Mae'r polisi hwn yn seiliedig ar y deddfwriaethau a'r dogfennau canlynol:

1. Deddf Addysg 1993

2. Rhestr Argymhellion ar Adnabod Anghenion Arbennig a'u Hasesu

3. Ffeil Anghenion Addysgol Arbennig Deddf Addysg 1993

4. Polisi Iaith yr Awdurdod Addysg

5. Rheoliadau Addysg Anghenion Arbennig (Gwybodaeth) 1994.

6. Côd Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

7. Asesu a Darparu ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (Cynllun Asesu Da CRISP)

Ar hyn o bryd mae 4 Cymhorthydd AAA yn yr ysgol
Mrs Ann Jones – llawn amser
Mrs Carys Williams – llawn amser
Mrs Wilma Jones – 4 diwrnod
Mrs Lowri Roberts – llawn amser

EGWYDDORION

Yr ydym fel ysgol yn anelu at weithredu yn unol â'r egwyddorion isod a fabwysiadwyd gan Bwyllgor Addysg Gwynedd:

i) sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i blant ag anghenion addysgol arbennig.

ii) cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau statudol eraill perthnasol i'r maes megis yr Awdurdod Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

iii) sefydlu partneriaeth â rhieni a Chyrff Gwirfoddol sy'n eu cynrychioli.

iv) sicrhau ymateb Awdurdod Addysg cyfan ac ysgol gyfan i anghenion addysgol arbennig a pheidio â chyfyngu cyfrifoldeb i staff penodol.

AMCANION

Ein nod yn Ysgol Nefyn yw gwneud ein gorau i sicrhau tegwch addysgol a chymdeithasol i bob un plentyn ar draws yr ystod gallu. Gobeithiwn hefyd fedru gofalu fod pob unigolyn yn cael y cyfle gorau i weithio hyd at eithaf ei allu a hynny trwy waith ysgrifenedig neu ymarferol mewn cyd-destun dwyieithog. Gobeithio hefyd ein bod yn medru cael pob plentyn i sylweddoli'n llawn ei lawn botensial a'i ddawn unigryw ei hun.
Anelir at:

i) sicrhau bod cyfundrefn yn bodoli yn yr ysgol i adnabod yn gynnar y plentyn sydd ganddo anawsterau a all fod yn llesteirio ei addysg

ii) casglu gwybodaeth ynghyd gan athrawon ac eraill i sicrhau y ceir dealltwriaeth orau am natur anawsterau'r plentyn

iii) sicrhau y caiff y ddarpariaeth angenrheidiol ei gwneud ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd ag anghenion addysgol arbennig

iv) sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth y rhieni ac eraill mewn perthynas ag adnabod a darparu gwasanaeth.

Anghenion Addysgol Arbennig
Camau Gweithredu

Gweithredir y Côd Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2003 yn yr ysgol. Llunir Cynlluniau Addysg Unigol ar gyfer y disgyblion sydd ar Gofrestr Anghenion Arbennig yn dymhorol. Cyflwynir targedau newydd cyn gynted ag y bydd plentyn wedi cyflawni`r targedau a osodwyd iddo/iddi`n flaenorol. Mae cyfraniad y plentyn i`r trafodaethau a.y.y.b. yn bwysig iawn.
Bydd y Cydlynydd AAA (Mrs Glenys Williams) yn ymgynghori gyda`r Seicolegydd Addysg (Elenid Glyn) yngylch Anghenion unigolion gyda chaniatâd y rhieni.

Mae gwahoddiad i`r rhieni a`r unigolion i drafodaethau yr ysgol gyda`r athro neu`r athrawes a`r Cydlynydd AAA. Mae cysylltiad agos rhwng Ysgol Nefyn ag Ysgol Pont y Gof ac Ysgol Hafod Lon gan y bydd plant yr ysgol yn mynychu`r ddwy uned fel bo`r gofyn. Cynhelir Cyfnodau Cynhaliaeth plant ag AAA gyda`r athrawon ar ddechrau bob tymor. Bydd y Cydlynydd yn ymweld â`r dosbarthiadau`n aml i gael sgwrs gyda`r athrawon. Llunir Cynlluniau Asesu Da ar gyfer disgyblion 3 seren a disgyblionj â Datganiad.
Tynnir ac ychwanegir enwau plant i`r Cofrestr Anghenion Arbennig fel bydd angen. Bydd y Therapydd Iaith ac athrawes Uned Dyslexia yn gweithio gydag unigolion.
Bydd bob un plentyn sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig gyda`r cyfle i drafod ei ddatblygiad a`i lwyddiant a.y.y.b. yn aml yn Ysgol Nefyn.

Polisi Anghenion Addysgol Arbennig Ysgol Nefyn
(Gweler y Polisi`n llawn gan y Pennaeth)
Pwysig Mae AAA yn rhan hanfodol bwysig o bob Cynllun Datblygu Ysgol.
Yn Ysgol Nefyn :
. Caiff pob polisi AAA ei lunio gan yr holl staff a`r Llywodraethwyr
. Caiff ei adolygu a`i fonitro o leiaf ddwy waith y flwyddyn

Diffinio Cynnydd
. Cau`r bwlch cyrhaeddiad rhwng y disgybl a`i gyfoedion
. Atal y bwlch cyrhaeddiad rhag lledu
. Sicrhau ei fod yn gallu cymryd rhan yn y cwricwlwm cyfan
. Dangos gwelliant mewn sgiliau hunan-gymorth, cymdeithasol neu bersonol
. Dangos gwelliannau yn ymddygiad y disgybl
. Tebygol o arwain at gyfle i gymryd rhan mewn addysg bellach,hyfforddiant a/neu waith

* Er mwyn monitro cywirdeb tynnu plentyn oddi ar restr AAA yr ysgol rhoddir prawf darllen Glannau Menai yn Gymraeg a Saesneg i`r plentyn (os yw`n briodol gwneud hynny)

GOFAL BUGEILIOL

Rhoddir pob plentyn yng ngofal athro/athrawes arbennig, ond ceisia'r staff cyfan ymorol am les yr holl ddisgyblion. Mae'r ysgol hon yn annog plant i fod yn hunan ddisgybledig yn gyfrifol ac yn parchu eraill. Gwyddom y cawn gefnogaeth rhieni yn hyn o beth.

DISGYBLAETH

Mae polisi Awdurdod Addysg Gwynedd ar ddisgyblaeth mewn ysgolion yn rheoli'r ffordd y disgyblir plant yn yr ysgol hon.

Y GYMUNED

Ein nôd yw :-

. Galluogi pob unigolyn i feithrin gwybodaeth, agweddau a sgiliau sy`n berthnasol i fywyd mewn byd sy`n prysur newid, i addysgu parhaus ac i`r defnydd creadigol o hamdden.
. Annog cyswllt rhwng yr ysgol hon ac ysgolion eraill, diwydiant a masnach er mwyn datblygu dealltwriaeth y plentyn o fywyd economaidd ei ardal.
. Annog yr ysgol i hyrwyddo cysylltiadau â`r gymuned leol a chymdeithas yn gyffredinol trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol a chymunedol.
. Cynnwys elfen o weithgareddau hamdden ym mhrofiad addysgol pob plentyn fel y gallant ddefnyddio`u horiau hamdden yn greadigol ac i bwrpas.

CYSWLLT Â'R CARTREF

Ni all yr ysgol hon lwyddo heb gefnogaeth y rhieni. Yr ydym, felly, yn eich annog i ymddiddori yn addysg eich plant a bod yn gefn i'r ysgol yn ei gwaith ac yn ei gweithgareddau cyhoeddus.

Gall unrhyw riant sy'n dymuno trafod unrhyw agwedd ar addysg eu plant drefnu i wneud hynny trwy gysylltu â'r Pennaeth (trwy lythyr neu ar y ffôn).
Hefyd, bydd cyfle i rieni drafod cynnydd addysgol eu plentyn yn ystod tymor yr Hydref a thymor yr Haf. Cyflwynir adroddiad blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn addysgol.

Dylid gwneud pob ymdrech i gysylltu â`r ysgol yn ystod oriau gwaith arferol,h.y. rhwng 8:50 y bore a 3:15 y prynhawn ond, os y medrwch, trefnwch i gysylltu â ni yn ystod yr egwyliau – rhwng 10:30 a 10:45 y bore, rhwng 11:45 ac 1:00a rhwng 2:00 a 2:15 y prynhawn – pan nad ydy`r staff yn dysgu.

Cofier er hynny, fod drws agored i rieni bob amser pan mae gofyn am hynny. Bydd y Brifathrawes yn yr ysgol ar ôl 8.00 y bore ac hyd at 5.00 y prynhawn os oes unrhyw riant angen cysylltu neu alw yn yr ysgol.

ADDYSG RHYW

Yn unol â gofynion Deddf Addysg 1986, disgwylir i Gyrff Llywodraethol ysgolion ystyried os dylai addysg rhyw fod yn rhan o'r cwricwlwm secwlar.

Penderfynodd y Corff Llywodraethol y dylai addysg rhyw fod yn rhan o'r Cwricwlwm secwlar. Ymdrinir â'r maes drwy gyfrwng y Cwricwlwm Gwyddoniaeth ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac fe ymdrinir ag unrhyw gwestiynau a ofynnir gan blentyn yn sensitif ac mor agored ag y bernir yn addas o ystyried yr amgylchiadau, y cyd-destun, ac oed ac aeddfedrwydd y plentyn.

POLISI CYFFURIAU

Y mae corff llywodraethol Ysgol nefyn yn cydnabod pwysigrwydd mabwysiadu polisi cyffuriau er mwyn diogelu pawb yng nghymuned yr ysgol rhag problemau sy`n deillio o`r camddefnydd o gyffuriau, alcohol a thybaco yn ein cymdeithas.

POLISI ATAL BWLIO

Rhoddir pwyslais ar awyrgylch hapus, glos gyda`r disgyblion yn cyd-fyw mewn cymdeithas gartrefol. Anelir at hyrwyddo hunan-barch a chyfleoedd cyfartal i bob disgybl ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol.

DATGANIAD POLISI ~ BWLIO

Yn unol a pholisi Awdurdod Addysg Gwynedd, mae Ysgol Gynradd Nefyn yn ystyried bwlio yn fater o gonsyrn a allai effeithio'n uniongyrchol ar holl naws ac ethos yr ysgol.
Nid yw'r ysgol yn goddef bwlio ar unrhyw ffurf ac fe gymerir camau pendant i geisio sicrhau na fydd yr un plentyn dan ein gofal yn gorfod dioddef effeithiau bwlio.

Rydym fel ysgol yn datgan ac yn cydnabod y canlynol -:

- Bod bwlio yn bodoli ac y gall fynegi ei hun ar sawl ffurf
    - 'corfforol'-taro, cicio, dwyn, cuddio eiddo, trais rhywiol ac aflonyddwch.
    - 'geiriol'-galw enwau, dweud pethau cas (sarhaus), bychanu.
    - 'emosiynol'-Cychwyn sibrydion di sail, peidio siarad efo rhywun, eithrio o grwpiau, anfon negeseuon maleisus drwy e-bost neu ffôn symudol.
- Dylid delio gyda unrhyw achos o fwlio cyn gynted a phosibl er bod rhai achosion yn ymddangos yn llawer llai difrifol nac eraill.
- Mae gennym gamau pendant i'w dilyn. (Gweler taflen).
- Bod 'dioddefwr' a 'bwli' ym mhob achos. Dylid ymdrin a'r ddwy ochr i'r stori.Mae gan y plentyn sy'n fwli broblem yr un mor ddwys a'r plentyn sy'n cael ei fwlio.
- Dylid sicrhau bod athrawon, rhieni a llywodraethwyr yn ymwybodol o'r polisi a'r canllawiau sy'n ymdrin a bwlio.

CANLLAWIAU

1. Fe ystyrir yr ysgol hon fel cymuned neu gymdeithas o blant ac oedolion. Fe hyrwyddir yr ymdeimlad o gyd-weithio a chyd-garu ein gilydd. Mewn cymdeithas o'r fath fe ystyrir unrhyw achos o fwlio yn ymddygiad anghymdeithasol ac yn groes i reolau ac ethos y gymuned honno.

2. Mae staff yr ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i sefydlu perthynas athro-plentyn iach. Perthynas sy'n sensitif ac yn meithrin a datblygu hunan-barch. Hoffem gredu bod pob aelod o staff mewn sefyllfa i fod yn 'wrandawyr' sensitif y gall unrhyw blentyn ymddiried ynddynt.

3. Dylai ' bwlio ' fod yn un o'r agweddau pwysicaf wrth ymdrin a materion moesol. O'r herwydd dylid cyfeirio at fwlio yn rheolaidd ac nid dim ond pan gyfyd y broblem. Dylid gwneud hyn drwy sgyrsiau ffurfiol ac anffurfiol ar lefel dosbarth ac ysgol. Dylai'r plant gael cyfle i fynegi eu teimladau a'u barn ynglyn â'r mater ac i ddod ag unrhyw broblem i'r wyneb heb ofidio.Ymdrinir gyda bwlio mewn gwersi ABCh, yn y Cynghorau Ysgol ac yn y Gwasanaethau.

4. Os yw pethau wedi datblygu yn rhy bell i ni fedru ymdrin â'r sefyllfa heb ffwdan yna fe enwir y plant, ceir sgwrs a siaredir am fod yn ffrindiau a pheidio ffraeo neu fwlio yn y dosbarth neu ar ddiwedd y gwasanaeth.Os yw'r mater yn dal i barhau fe'i cedwir i mewn ar y gadair dawel a cheir sgwrs pellach gyda'r plant am bwysigrwydd bod yn ffrindiau. Cysylltir gyda rhieni y ddwy ochr os yw hyn yn wir angenrheidiol. Gwahoddir y rhieni i gyfarfod yn yr ysgol. Llenwir y daflen gofnodi os y bydd y plant wedi eu cadw i mewn ar y gadair dawel.

5. Mae cael plentyn i gydnabod ei fod yn cael ei fwlio yn gam fawr , mae cael plentyn i gydnabod ei fod yn fwli yn gam fwy fyth.

6. Mae goruchwyliaeth dda yn un o'r strategaethau mwyaf effeithiol i atal bwlio. Dylid felly sicrhau presenoldeb cyfeillgar ac anffurfiol staff yn ystod amseroedd chwarae neu unrhyw amser tu allan i ffiniau dosbarth.

7. Dylid sicrhau partneriaeth effeithiol â rhieni er mwyn canfod,atal a delio â bwlio. Dylid annog rhieni i gysylltu â'r ysgol i drafod unrhyw bryderon.

8. Mewn achos fydd yn teilyngu gweithredu ymhellach byddwn yn dilyn yr weithdrefn a amlinellir yn – Polisi Cynnal Ymddygiad. Mewn sefyllfa o'r fath dylid sicrhau cymorth asiantaethau allanol i gyd-drafod achosion o fwlio sy'n peri consyrn.

9. Bydd cyfle i aelodau'r Cyngor roi mewnbwn i'n Polisi.
10. Byddwn yn cynnal diwrnodau codi ymwybydiaeth o fwlio- o leiaf unwaith y tymor.
11. Bydd blwch ymhob dosbarth- cyfle i blentyn fynegi pryder- cyfrinachedd rhyngddo/rhyngddi â'r athro/athrawes .
12. Y mentoriaid fydd y Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth.
13. Bydd copi o'r polisi'n ar gael i rieni yn yr ysgol.

Byddwn yn….

- Canfod safbwyntiau'r disgyblion drwy'r fforymau neu'r Cyngor Ysgol.
- Bod yn wyliadwrus o gamddefnyddio'r polisi gwrth-fwlio i wadu achos o fwlio.
- Cyflwyno'r polisi i aelod newydd o'r staff a disgyblion yr ysgol.
- Adrodd digwyddiadau penodol i is-bwyllgor Llywodraethwyr, os yn ddigwyddiadau difrifol.
- Byddwn yn defnyddio canfyddiadau'r broses fonitro wrth adolygu a diweddaru'r polisi. Bydd hyn yn digwydd o leiaf unwaith y flwyddyn. Byddwn yn darparu adroddiad i'r llywodraethwyr bob tymor.

- Ni fyddwn yn cysylltu â rhieni onibai fod yr achosion yn rhai difrifol neu'n ddigwyddiadau sy'n digwydd dro ar ôl tro. (Y Pennaeth, Dirprwy ac is-bwyllgor Llywodraethwyr fydd yn penderfynu difrifoldeb y digwyddiadau) Ysgrifennir llythyr i'r rhieni mewn achosion oddi fewn Cyfnod penodol, lle y penderfynwyd y dylem wneud hynny e.e. Lle mae achos disgybliaeth yn erbyn plentyn- (digwyddiad yn dal i cymeryd lle ar ôl i'r plentyn dderbyn dwy rybudd) byddwn yn cysylltu gyda rhiant a chynnig iddynt ymuno yn y broses. (Mae gan rieni hawl gwrthod ond mae'r ysgol wedi dangos chwarae teg).
- Os bydd rhiant yn ffonio'r ysgol i gwyno yn erbyn staff a phlant cedwir cofnod o'r alwad- amser, enw'r rhiant a natur y gŵyn. Ond gofynnir i'r sawl sy'n ffonio am y gŵyn yn ysgrifenedig- wedi ei ddyddio a'i arwyddo.
- Pan mae cyfarfod â phlentyn, bydd athrawes dosbarth neu'r dirprwy yn bresennol.
- Byddwn yn edrych i mewn i bolisiau 'bwlio' yr ysgol.
- Byddwn yn creu rhestr achlysuron bwlio gyda chyfraniad y plant.
- Byddwn yn creu rhestr o ymddygiad annymunol sydd yn fwlio os yn dod yn batrwm gyda chyfraniad y plant.
- Bydd y polisi Bwlio ar gael i'r rhieni eu darllen yn yr ysgol fel pob polisi arall.

CREFYDD

Nid yw'r ysgol hon yn dal cysylltiad uniongyrchol a ffurfiol ag unrhyw enwad crefyddol.

Mae'r Addysg Grefyddol a gyflwynir yn seiliedig ar faes llafur cydnabyddedig yr Awdurdod Addysg a'r hyn sy'n cael ei gynnwys yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Gellir gwneud trefniadau ar gyfer plant nad yw eu rhieni am iddynt fynychu'r gwasanaethau crefyddol neu astudiaethau cyffelyb.

CYD-ADDOLI

Mae cyd-addoliad yn digwydd yn ddyddiol yn yr ysgol fel a ganlyn:-

Dydd Llun	Adran Babanod/Iau (yn y dosbarthiadau)
Dydd Mawrth	Ysgol gyfan
Dydd Mercher	Adran Babanod/Iau (yn y dosbarthiadau)
Dydd Iau	Adran Babanod/Iau (yn y dosbarthiadau)
Dydd Gwener	Ysgol gyfan

Bydd y gwasanaethau hyn yn Gristnogol yn bennaf, ond rhoddir sylw i gredoau eraill o bryd i'w gilydd. Hefyd gwahoddir Y Parch Robert Roberts, Anti Nia ac Anti Susie i'r ysgol i gynnal gwasanaethau.

POLISI IAITH

AMCANION CYFFREDINOL

Mae Awdurdod Addysg Gwynedd yn gweithredu polisi dwyieithog trwy holl ysgolion Gwynedd a, hefyd, yn datblygu polisi dwyieithog ar gyfer sefydliadau Addysg Bellach.

Yr amcan yw datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr y sir i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

Dylai holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r polisi iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth academaidd.

GWERTHOEDD, AMCANION AC ETHOS YR YSGOL

AMCANION PENODOL

Addysg Feithrin

Sicrhau, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law.

Babanod

Adeiledir ar y sylfeini a osodwyd i'r Gymraeg drwy addysg feithrin, cadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn ac ymestyn gafael y plentyn o gartref Cymraeg ar y Saesneg.

Iau

Cadarnhau a datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol, er mwyn sicrhau ei fod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd ac yn hyderus yn y ddwy iaith pan fo'n trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd. (Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer hwyr-ddyfodiaid.)

Bydd y Pennaeth, mewn ymgynghoriad â'r staff, yn paratoi ac adolygu'n rheolaidd ddogfen sy'n datgan sut mae'r ysgol yn bwriadu gweithredu polisi iaith yr Awdurdod Addysg a amlinellir uchod.

DEFNYDD O'R GYMRAEG A'R SAESNEG

Credwn fod gan holl blant yr ysgol hawl i dyfu yn ddinasyddion dwyieithog. Parchwn famiaith pob disgybl a cheisiwn eu hannog ddatblygu eu hyfedredd yn eu hail iaith, boed yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Mae nodau ieithyddol yr ysgol hon yn unol â nodau Polisi Dwyieithog yr Awdurdod Addysg.

Gweithredir y polisi drwy:

i) sicrhau yn y Dosbarth Derbyn, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei (g)alluogi i gyrraedd y nôd o ddwyieithrwydd llawn maes o law.

ii) adeiladu ym Mlwyddyn Dau ar y sylfaen a osodwyd i'r Gymraeg drwy Addysg Feithrin, Derbyn a Blwyddyn 1, cadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn o ddysgwr Cymraeg ac ymestyn gafael y plentyn ar y Saesneg.

iii) yng Nghyfnod Allweddol 2, cadarnhau a datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol, er mwyn sicrhau ei fod/bod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd a hyderus yn y ddwy iaith pan fo'n trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd.

Y Gymraeg yw iaith gyfathrebol yr ysgol hon.

Fe'i defnyddir:

- yng ngweinyddiad dydd i ddydd yr ysgol
- fel yr iaith achlysurol (tu allan i sesiynau dysgu)
- fel iaith gwasanaethau boreol a chynulliadau torfol.

Y Gymraeg fydd prif iaith cyfrwng y dysgu - i gyflwyno a chofnodi - ar draws y cwricwlwm.

Cyflwynir y Saesneg ym Mlwyddyn 2 yng Nghyfnod Allweddol 1 ac, yna, cynyddir ei defnydd yn gyson trwy Gyfnod Allweddol 2 i gyflwyno a chofnodi - fel y disgwylir y gall pob plentyn ei defnyddio'n hyderus i ymwneud ag amrywiol feysydd y cwricwlwm erbyn Blwyddyn Chwech, hynny yw, bydd yn ddwyieithog.

POLISI CYFLE CYFARTAL YSGOL NEFYN

NOD

Nod ac amcan Ysgol Nefyn yw cyflwyno addysg gyflawn i bob disgybl er mwyn ei baratoi a hyrwyddo`i ddatblygiad i fod yn unigolyn cytbwys a chanddo feddwl agored.

. Ystyriwn fod pob unigolyn yn gyfartal â rhoi parch i bob un yn ôl ei allu, ei gyrhaeddiad a`i ddawn arbennig.
. Mae gwahaniaethau ar sail rhyw, hil, diwylliant, lliw, dosbarth, iaith, anabledd corfforol neu allu addysgol yn hollol annerbyniol.
. Amcanwn i bob disgybl, aelod o`r staff, llywodraethwyr a rhiant geisio eu gorau i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bob un yn yr ysgol trwy gyfrannu`n bersonol at greu amgylchfyd hapus a llawn gofal er mwyn ennyn hunan barch a pharch at eraill.
. Ceisiwn greu awyrgylch ble ceir y parch dyledus at gefndiroedd a phrofiadau disgyblion a staff yr ysgol.
. Amcanwn i osgoi unrhyw arfer o wahaniaethau lle na cheir cyfle cyfartal yng ngweinyddiad yr ysgol, yn y cwricwlwm addysgu ac yn gymdeithasol.

DATGANIAD

Cydnabyddwn bod ein plant yn tyfu i fyny mewn cymdeithas eang a nodweddir gan wahaniaethau, nid yn unig mewn hil ond crefydd, gwisg, bwyd ac iaith sy`n adlewyrchu`r newidiadau cyfoes hyn.
Anelwn, felly, at adlewyrchu`r gwahaniaethau hyn ac ehangu ar addysg yr holl ddisgyblion i`w galluogi i ddeall a gwerthfawrogi natur aml-ddiwylliannol amrywiol gymdeithasau.

Yn unol â Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975, Deddf Cyflogau Cyfartal 1970 a`r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1977 mae Cyngor Gwynedd wedi paratoi datganiad (ar gael yn yr ysgol) ynglŷn â chael gwared ar wahaniaethau mewn cyflogaeth.

Mae`r Corff Llywodraethol, mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd, yn bwriadu sicrhau arferion da a fydd yn hyrwyddo cyfle cyfartal i`r holl staff.

Wrth weithredu y polisi mae`n hanfodol gwarchod yn erbyn gwahaniaethu drwy gymryd yn ganiataol bod rhyw, statws priodasol neu ffactor arall yn gwneud yr unigolyn yn anaddas i`w ch/gyflogi.

POLISI AR GYFER CYNYDDU MYNEDIAD I DDISGYBLION AG ANABLEDDAU

Mae Strategaeth Hygyrchedd Cyngor Gwynedd ar gyfer Ysgolion Cynradd wedi ei selio ar ddatblygu ysgolion dynodedig ar draws y Sir. Cam cyntaf y strategaeth yw sicrhau fod o leiaf un ysgol gynradd ddynodedig ym mhob dalgylch Uwchradd. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod Addysg i gynnig lle i bob plentyn ag anabledd mewn ysgol prif lif o fewn pellter rhesymol i'w gartref os mai hynny yw dewis ei rieni. Dros amser bydd camau pellach i'r strategaeth fydd yn anelu i gynyddu nifer yr ysgolion dynodedig ond mae'r strategaeth hefyd yn nodi nad yw'n debygol y gellir cyrraedd pwynt ble mae pob ysgol yn gallu sicrhau mynediad i bob plentyn ag anabledd.

Nid yw'r ysgol hon yn ysgol ddynodedig dan gam cyntaf strategaeth yr Awdurdod Addysg. Serch hynny mae cyfrifoldeb arnom i gynllunio i leihau rhwystrau i fynediad i blant ag anableddau fel y gellir rhoi'r cyfle gorau i blant y mae eu rhieni wedi mynegi dymuniad iddynt gael mynediad i'r ysgol i allu dod yma.

Yn dilyn awdit o'r sefyllfa mae'r ysgol wedi adnabod y materion a nodir yn y cynllun cynyddu mynediad atodol fel materion y gellir yn rhesymol roi sylw iddynt, a byddwn yn anelu i gwblhau'r tasgau a nodwyd o fewn yr amserlen a gytunwyd. Roedd yr awdit yn rhoi sylw i'r tri maes a nodir yng nghanllawiau'r Cynulliad sef:

Cynyddu'r graddau y mae disgyblion anabl yn gallu cymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol.
Gwella amgylchedd ffisegol yr ysgol.
Gwella'r modd mae gwybodaeth ysgrifenedig a roddir i ddisgyblion heb anableddau yn cael ei gyflwyno i ddisgyblion ag anableddau.

Gwneud yr awdit drwy ddefnyddio'r fframwaith a gynhwyswyd yng nghanllawiau'r Cynulliad sef "Cynllunio ar gyfer Cynyddu Mynediad i Ysgolion i Ddisgyblion ag Anableddau".

Pe byddai'r Awdurdod Addysg yn caniatau mynediad i blentyn ag anableddau i'r ysgol yna fe fydd yr ysgol, mewn cydweithred â'r Awdurdod, yn asesu gofynion y plentyn ac yn diwygio'r cynllun gweithredu yn unol â chanlyniadau'r asesiad.

Cynllun Cynyddu Mynediad Ysgol Nefyn

Lluniwyd y cynllun hwn ar ôl:
Cynnal archwiliad o safle'r ysgol mewn perthynas â mynediad,
Ystyried dulliau cyffredinol o wella mynediad gan gofio nad yw'r ysgol ar hyn o bryd yn ysgol ddynodedig dan Strategaeth Hygyrchedd y Sir.
Ystyried anghenion unrhyw blant ag anableddau sydd yn yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn monitro gweithrediad y cynllun ac yn cadw anghenion mynediad yr ysgol dan adolygiad.

	Targedau	**Strategaethau**	**Canlyniad**	**Amserlen**	**Nodau a gyflawnwyd**
Tymor Byr	Ffisgeol Blaenoriaeth gwelliant gan ystyried Anghenion y cyhoedd yn ogystal â darpar ddisgyblion.	Adolygu faint o adnoddau sydd ar gael o'r gyllideb ddirprwyedig a thrafod arian o'r hraglen cyfalaf ysgolion gyda'r AALl.	Ramp drws wedi'i osod (mynedfa i ystafell blwyddyn meithrin a derbyn a mynedfa i'r caban) Un toiled i'r anabl wedi ei osod yn y Caban. Ystafell arbennig ar gyfer gosod toiled i'r anabl yn Adran y Babanod. Switsus golau isel. (Cynyddu'r rampiau toiledau yn y blynyddoedd dilynol yn ôl yr angen yn Arbennig yn yr Adran Iau)	Blwyddyn 1, 2006/07	Hygyrchedd ffisegol yr ysgol wedi cynyddu.
	Cwricwlwm Parhau i hyfforddi athrawon a chymhorthyddion ar wahaniaethu'r cwricwlwm (bydd hyn yn parhau o flwyddyn i flwyddyn) Parhau i hyfforddi llywodraethwyr.	Athrawon a chymorthyddion yn derbyn Cyngor arbenigol. Ymgynghorwyr ac yn manteisio ar hyfforddaint a gynigir. AALL	Athrawon a chymorthyddion yn gallu diwallu Anghenion plant ag anabl yn llawnach o ran mynediad at y cwricwlwm Diweddaru gwybodaeth i'r llywodraethwyr.		Cynnydd yn y mynediad at y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Tymor Canol	Golwg Argaeledd deunydd ysgrifenedig mewn fformatau angen.	Ymgyfarwyddo â'r gwasanaethau sydd ar gael drwy'r AALI ar gael gyfer trosi gwybodaeth ysgrifenedig i fformatau amgen.	Yr ysgol yn gallu darparu gwybodaeth ysgrifenedig mewn fformatau amgen.	Blwyddyn 2, 2007/08	Gwella'r dull o gyflwyno gwybodaeth i ddisgyblion anabl. (Pan yn berthnasol)
	Clyw Sicrhau dull gwagio ysgol effeithiol.		Rhybudd tân gweladwy wedi'i osod.		

Tymor Hir	Golwg Cynnwys cynlluniau lliw priodol wrth adnewyddu er lles plant â nam ar eu golwg a gosod llenni/blinds lle bo angen. Sicrhau llwybrau / symudedd parhaol a chyson o fewn dosbarthiadau.	Ceisio Cyngor gwasanaeth cefnogi synhwyrau AALI a'r RNIB (gw. Ffeil Exploring Access)	Sawl dosbarth yn fwy hygyrch i blant â nam ar eu golwg. Ystafelloedd wedi'u goleuo'n addas. Sdribedi addas wedi'u gosod i ddynodi llethr / step / gwydr ayyb.	Blwyddyn 3, 2008/09	Hygyrchedd ffisegol yr ysgol wedi cynyddu.

<u>Pwysig</u>
Cyrsiau brys angenrheidiol. Gwariant ar frys pan ddaw'r gofyn– Disgyblion ag anabledd yn derbyn ei addysg (ei haddysg) yn ysgol Nefyn

POLISI IECHYD A DIOGELWCH YSGOL NEFYN

Cyd-gysylltydd Iechyd a Diogelwch yr ysgol hon yw`r Pennaeth a dyma restr fras o`r gorchwylion a gedwir ar gyfer y staff, plant ac eiddo`r ysgol.

1. Casglu gwybodaeth a data gan y Cyngor a ffynonellau eraill am drefniadaeth ac arferion iechyd a diogelwch cyfredol i`w cyflwyno ger bron Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch yr ysgol. Adolygu`r sefyllfa.
2. Cyflawni archwiliadau cyson yn unol â pholisi`r ysgol. Llunio adroddiadau ac argymhellion i`r Pennaeth a`r Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch.
3. Bod yn gyfrifol am unrhyw gyllideb iechyd a diogelwch a neilltuir, gan gynnwys paratoi amcangyfrifon i`w cymeradwyo. Paratoi archebion, archwilio a chymeradwyo anfonebau a danfonebau cadw manylion, sicrhau bod rheolaeth ar y gyllideb.
4. Sefydlu trefn fel y gall staff adrodd ynghylch peryglon iechyd a diogelwch a hysbysu adrannau perthnasol, staff cynnal a chadw mewnol neu Adran Eiddo y Cyngor, fel bo`n briodol, er mwyn sicrhau y gweithredir ar y mater.
5. Sicrhau bod trefniadaeth ddamweiniau a chadw manylion ddigonol ym mhob adran a rhannau annibynnol yr ysgol, derbyn a chofnodi ffurflenni hysbysu am ddamweiniau gan y rhain,archwilio achosion, hysbysu Swyddog Iechyd a Diogelwch y Cyngor, argymell unrhyw weithredu a fo`i hangen i gael gwared ag unrhyw beryglon a fo`n debyg o achosi damweiniau eto.
6. Sicrhau bod yr holl flychau Cymorth Cyntaf wedi`u lleoli a`u cyflenwi`n briodol.
7. Sicrhau bod digon o staff Cymorth Cyntaf wedi`i hyfforddi i gwrdd â`r rheolau a`r canllawiau a gymeradwywyd gan y Pennaeth a`r llywodraethwyr.
8. Sicrhau bod y rhai a hyfforddwyd mewn Cymorth Cyntaf yn derbyn hyfforddiant diweddaru ar adegau priodol i dderbyn tystysgrifau newydd.
9. Sicrhau bod y cyfarpar lladd tân yn ei le ac wedi`i gyflenwi`n briodol, cyflawni ymarferion tân yn rheolaidd ac o leiaf unwaith y tymor.
10. Cynghori a chefnogi athrawon a staff ynglŷn a holl faterion iechyd a diogelwch, gan ddosbarthu gwybodaeth `ir holl staff perthnasol.
11. Annog a threfnu hyfforddiant a datblygu staff ynglŷn â`r holl agweddau ar iechyd a diogelwch.
12. Goruchwylio ac adrodd, os oes rhaid, ar weithredu penderfyniadau`r Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch.
13. Cynnal archwiliad Iechyd a Diogelwch o holl eiddo`r ysgol a chyflwyno adroddiad i Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch yr ysgol.
14. Sicrhau bod Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch yr ysgol yn gyfarwydd â dyletswyddau gofal cyfrifoldebau statudol cyfredol a chyfrifoldebau newydd.
15. Sicrhau bod trefniadaeth ddiogelwch yr ysgol, trefniadau goruchwylio, archwiliadau cyfnodol neu brofion o systemau diogelwch yn gweithio ac yn effeithiol.
16. Cylchlythyru a diweddaru deunydd Iechyd a Diogelwch perthnasol, gan gynnwys arwyddion a dogfennau mandadol a chyfarwyddol.
17. Mynychu seminarau, cyfarfodydd a gweithdai ynglŷn â Iechyd a Diogelwch ar ran yr ysgol.

I sylw'r rhieni

Pwysig!
Darllenwch y wybodaeth ganlynol yn ofalus.
Diolch yn fawr iawn i chi.

Polisi Diogelwch ar iard yr ysgol a thu allan i Ysgol Nefyn

Cymerwn gamau pendant i geisio sicrhau ein bod yn gwneud popeth posibl i gadw'r plant a phawb arall yn ddiogel ar yr iard ac ar y ffordd allan i'r ysgol.

1. Pawb i gofio peidio gyrru'n gyflymach na 5 milltir yr awr y tu allan i'r ysgol.
2. Y tacsi i mynydd Nefyn i gyrraedd yr ysgol erbyn 3:10 y prynhawn ac i barcio wrth y palmant gyda'r drysau mynediad yn wynebu'r palmant.
3. Pob rhiant / gwarchodwr sy'n dymuno nôl eu plant o'r ysgol i ddod at y giât fach neu ar yr iard i nôl y plant ac i sicrhau fod plant yn cerdde gyda nhw i'r ceir. Bydd rhieni'r plant Meithrin yn aros tu allan i gffens y caban.
4. Y plant sy'n gadael yr ysgol heb eu rhieni i groesi gyda Anti Wilma ac nid ar eu pennau eu hunain.
5. Y rhieni sy'n parcio ar y ffordd fawr i barcio'n glir o'r man croesi AC YN GLIR O'R MARCIAU ZIG ZAG AR Y FFORDD A GYFERBYN Â'R MARCIAU ZIG ZAG a dod i nôl eu plant drwy'r giât fach.
6. Bydd giât fawr yr ysgol ar gau ac wedi ei chloi yn ystod yr amseroedd rhwng 8:30 a 3.15. Ymwelwyr i barcio tu allan yn ystod yr amseroedd hyn a cherdded drwy'r giât fach ac ar hyd yr iard i nôl y plant neu i ymweld â'r athrawon cyn dychwelyd yr un ffordd. (Bydd drws y brif fynedfa ar gau / gloi a rhaid canu'r gloch i gael mynediad).

Gobeithiwn y bydd ein rheolau diogelwch yn diogelu'n plant a'u rhieni / gwarchodwyr.

Diolch am eich cydweithrediad.

Tywydd Garw

Os y bydd y swyddfa dywydd yn ein rhybuddio fod eira trwm ar y ffordd byddwn yn gadael i chi wybod cyn gynted â phosibl.
Byddwn yn cyhoeddi'r neges trwy orsafoedd Radio Cymru Wales a Champion os yw Ysgol Nefyn yn methu agor.

Y Gymdeithas Rhieni / Athrawon

Gohebiaeth– Rhoddir gwybodaeth rheolaidd am weithgareddau'r tymor hwn trwy lythyrau. Bydd yr holl ohebiaeth yn ddwyieithog.

POLISI CWYNO YSGOL NEFYN

Mabwysiadwyd y polisi hwn gan y Corff Llywodraethol yn eu cyfarfod

Os oes gan unrhyw riant neu warcheidwad unrhyw gwyn yn erbyn yr Ysgol, boed yn gŵyn yn erbyn un o`r athrawon, sut y cynhelir gweithgareddau ysgol neu unrhyw fater perthnasol arall rhaid dilyn y canllawiau isod wrth gyflwyno cwyn:

1 Gall y rhiant / gwarcheidwad fynd yn syth at y Pennaeth i drafod y mater.

neu

2 Anfon y gwyn yn ysgrifenedig at y Corff Llywodraethol.
Bydd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr yr hawl i alw cyfarfod brys o`r Corff os yw`r gwyn yn ei dyb ef / thyb hi yn fater y dylid ei drafod yn syth. Yn dilyn trafodaeth gan y corff bydd y cwynydd yn cael eu dyfarniad yn ysgrifenedig o fewn saith niwrnod i`r Corff gyfarfod.

TROSGLWYDDO I`R YSGOL UWCHRADD

Mae`r disgyblion yn symud i Ysgol Botwnnog neu Ysgol Glan y Môr, Pwllheli ar ddiwedd y chweched flwyddyn. Yn ystod eu tymor olaf cânt ymweliad gan y ddau Bennaeth a chânt ymweld â`r Ysgolion Uwchradd yn ystod eu tymor olaf er mwyn cael blas ar wersi. Ceir trafodaeth anffurfiol i`w darparu ar gyfer cam newydd yn eu haddysg. Estynnir gwahoddiad i rieni a phlant fynychu nosweithiau agored yn yr Ysgolion Uwchradd i`w cyflwyno i`w athrawon dosbarth a`u dangos o gwmpas yr ysgol. Bydd adroddiad ysgrifenedig yn cynnwys canlyniadau profion yn cael ei anfon o`u blaen i`r Ysgol Uwchradd er mwyn darparu ar eu cyfer.

AMSER CPA ATHRAWON

Ers Medi 2005 mae pob athro drwy Gymru a Lloegr yn derbyn amser CPA – amser cynllunio, paratoi, asesu a marcio – cyfystyr a 10% o`u hamser dysgu sydd wedi ei amserlennu ymhob ysgol. Golyga hyn e.e. y bydd pob athro llawn amser yn derbyn un sesiwn (bore neu brynhawn) yn ddigyswllt pob wythnos (neu fe all gael ei drefnu`n wahanol e.e. un diwrnod pob pythefnos a.y.y.b.)
Bydd pob athro rhan amser yn cael 10% CPA hefyd. Yn yr ysgol bydd 10% CPA yn cael ei leoli. Yr Uwch Gymhorthydd fydd yn addysgu`r plant yn ystod y cyfnod CPA.

DIWEDDGLO

Mae`r wybodaeth yn y ddogfen yn gywir ar adeg ei hysgrifennu ond ni ddylid cymryd yn ganiataol na fydd unrhyw newid yn effeithio ar y trefniadau perthnasol cyn dechrau neu yn ystod y flwyddyn ysgol nac mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ddilynol.

GWYLIAU YSGOL
2008-2009

TYMOR:

Hydref 2008	1 Medi 2008	-	19 Rhagfyr 2008
Gwanwyn 2009	5 Ionawr 2009	-	3 Ebrill 2009
Hâf 2009	20 Ebrill 2009	-	17 Gorffennaf 2009

Bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ar ddydd Mawrth, 2ail o Fedi, 2008.

GWYLIAU:

27 – 31 Hydref 2008	(Hanner-Tymor)
22 Rhagfyr 2008 - 2 Ionawr 2009	(Gwyliau'r Nadolig)
17 - 20 Chwefror 2009	(Hanner-Tymor)
6 - 17 Ebrill 2009	(Gwyliau'r Pasg)
4 Mai 2009	(Calan Mai)
25 - 29 Mai 2009	(Hanner-Tymor)
20 Gorffennaf - 31 Awst 2009	(Gwyliau'r Hâf)

Bydd yr ysgolion yn ail-agor ar ddydd Mawrth, 1af o Fedi, 2009 i athrawon ac ar ddydd Mercher , 2ail o Fedi i ddisgyblion.

Nifer o ddyddiau ymhob mis y bydd yr ysgolion ar agor:

MEDI 2008	22	
HYDREF 2008		18
TACHWEDD 2008	20	
RHAGFYR 2008	15	
IONAWR 2009		20
CHWEFROR 2009	16	
MAWRTH 2009	22	
EBRILL 2009	12	
MAI 2009	15	
MEHEFIN 2009	22	
GORFFENNAF 2009		13

	195	

1af o Fedi 2008- Diwrnod dan Reolaeth Ysgol
4 Diwrnod Hyfforddiant
Daw hyn a'r nifer dyddiau ysgol i ddisgyblion i 19
Bydd ysgolion sy'n cau ar gyfer etholiadau, yn agor am y nifer hynny o ddyddiau ar ddiwedd Tymor yr Haf.